

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fai, 2023.

- 1 Presennol:** John Jones (Cadeirydd), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), Michael Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Huw Pritchard, Sarah Jones, Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Iddon Edwards, Gwenno Emlyn Huws, Jess Williams (Penmorfa),
- 2 Ymddiheuriadau:** Clifford Williams (Garndolbenmaen), Stephen Churchman (Cyngorwr Sir Cyngor Gwynedd), June Jones (Cyngorydd Sir Cyngor Gwynedd).
- 3 Ddim yn bresennol:** Neb
- 4 Datgan buddiant:** Neb
- 5 Cywirdeb y cyn-gofnodion:** 5/4/23 Richard Williams yn cynnig a Jess Williams yn eilio.
- 6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion:**

Bwrdd Gwybodaeth Pentrefelin: Cytunwyd bod yr amcan bris gan yr argraffydd lleol yn dderbyniol. Penderfynwyd ar orffeniad satin a gosod y bwrdd ar ongl yn hytrach na'n fertigol.

Cais am arian o'r Gronfa Gelfyddydol gan Gyngor Gwynedd wedi'i wrthod. Cais am arian arall wedi'i wneud i Gronfa Cydlyniant Cymunedol, disgwyl ymateb.

Diffib Prenteg: wedi ei gynnwys ar bolisi yswiriant y Cyngor ac wedi'i ychwanegu at restr o'r asedau.

Llwybrau Cyhoeddus:

Llwybr rhif 5: Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy wedi siarad hefo perchennog y tir ac mae'n hapus i'r giatiau gael eu newid a thrwsio'r cwlfer.

Llwybr Moel y Gest ger Capel Bryn Melyn - Dewi am drefnu i osod arwydd newydd i ddangos y ddau lwybr yma.

Prenteg: Dim ymateb gan yr Adran Fwrdeistrefol parthed y cae chwarae. Dim dyddiad wedi ei roi eto ar gyfer archwilio'r ffordd gul er mwyn gosod arwydd "ddim yn addas i loriau".

Mynydd Glas, Garndolbenmaen: Cafwyd cadarnhad gan y Swyddog Cynllunio, Parc Cenedlaethol Eryri eu bod yn edrych i mewn i'r mater ac eu bod wedi ymweld â'r safle ac eu bod mewn trafodaeth hefo'r perchennog.

Materion Priffyrdd:

Garndolbenmaen: Mae'r Adran am archwilio'r safle ger Llys Eifion i weld beth sydd yn achosi'r ffordd i fod yn wlyb drwy'r adeg.

Golan/Cwmystradllyn: Mae'r archwilwyr wedi trefnu bod y gweithlu'n agor y ffosydd.

7 Mynwentydd:

Torri Gwair - Clerc i gysylltu gyda'r contractwyr i'w hatgoffa bod angen ei hysbysu o bob toriad a dylid gyrru anfoneb i mewn yn fisol.

Mynwent Bethel - bydd chwynladdwr yn cael ei roi ar y llwybrau wythnos yn cychwyn 7fed o Fai.

8 Llwybrau Cyhoeddus:

Llwybr Lodge Ymwllch dros y cae i Ymwllch Ganol - y gamfa dros y wal yn fregus.

Llwybr yr hen dramffordd Cwmystradllyn - mae'r llwybr yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i weld gwelliannau yn cael ei wneud fel ei bod yn bosib i'w gerdded ar ei hyd. Cysylltwyd yn barod gydag Uwch Swyddog Hawliau Tramor, Cyngor Gwynedd ynglŷn â'i gyflwr. Mae wedi datgan ei bod yn awyddus i gydweithio gyda'r Cyngor Cymuned a Pharc Cenedlaethol Eryri i ddod a'r rhwydwaith i safon. Penderfynwyd tynnu ei sylw at y mater eto.

Clerc i gysylltu gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy ynglŷn â'r 2 llwybr uchod.

9 Adroddiad Pentrefi:

Prenteg: Adroddwyd fod ceir dringwyr yn cael eu parcio dwy ochor i'r lôn dros Wyl y Banc wrth Fwlch y Moch ac yn creu sefyllfa perygl. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol.

Garndolbenmaen: Problem parcio yng nghanol y pentref Clerc i holi'r Cyngorydd Stephen Churchman pa gamau sydd wedi cael eu gweithredu i ddatrys y broblem.

Pentrefelin: Aseiad Diogelwch Ffordd A497 Criccieth i Bentrefelin ym mis Mai 2022, derbyniwyd copi o Aseiad Diogelwch Ffordd A497 Criccieth i Bentrefelin wedi ei baratoi gan Gyngor Gwynedd. Y prif gasgliad oedd y byddai'n fuddiol i leihau'r cyflymder o'r

cyfyngiadau cenedlaethol i 40 mya. Cysylltodd y Clerc gyda'r Adran Briffyrdd, ond nid oeddent yn ymwybodol o'r adroddiad. Clerc i yrru copi o'r adroddiad atynt.

Golan: Bin Baw Ci Llyn Cwmystradllyn Yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2022 trafodwyd ymddygiad anghyfrifol rhai perchnogion cŵn, sy'n gadael y baw ar lawr neu'n gadael y bagiau ar lawr yn y maes parcio. Ofer bu'r ymdrechion i gael y Bwrdd Dŵr i osod biniau wrth y llyn. Adroddwyd nad yw'r sefyllfa wedi gwella a petai'r bagiau yn mynd i'r llyn, gall hyn gael effaith ar safon y dŵr. Penderfynwyd gwneud cais am gyfarfod safle gydag aelod o staff o'r Bwrdd Dŵr. Clerc i drefnu.

Lôn Fudr - coed yn cuddio'r arwydd 'Arhoswch'. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Adran Draffig i ofyn am gyfarfod safle i drafod y posibilrwydd o osod arwydd arall yn uwch i fyny'r lôn. Clerc i drefnu.

Penmorfa: Adroddwyd fod gwaith plannu yn mynd ymlaen yn y polytunnel. Gwaith atgyweirio wedi cychwyn ar eiddo fu'n wag ers blynyddoedd.

10 Sesiwn Anwytho Cynghorwyr Newydd: Penderfynwyd cynnal y sesiwn anwytho nos Fercher, 24ain o Fai am 7 o'r gloch yng Nghanolfan Golan. Clerc i yrru copi o'r polisïau a Chanllaw'r Cynghorwr Da at y Cynghorwyr fydd yn mynychu.

11 Gohebiaeth

- a. Cyngor Gwynedd - Holiadur Perfformiad Cyngor Gwynedd (dyddiad cau 19/05/23)
Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn ei lenwi.
- b. Cyngor Gwynedd - Raglen waith mis Mai.

Gohebiaeth Ychwanegol

- a. Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (dyddiad cau 23/06/23)
- b. Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad - Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol.
- c. Unllais Cymru - Model Rheolau Sefydlog.
- ch. Unllais Cymru - Swyddog Cyfathrebu Newydd.
- d. Unllais Cymru - Dyddiadau Hyfforddiant Mai.
- dd. Unllais Cymru - Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023.
- e. Cyngor Cymuned Pistyll - Diffygion Darpariaeth Hyfforddiant yn y Gymraeg. Cefnogi.
- f. Yswiriant Zurich - Amser adnewyddu.

Cynllunio

Rhestrau - 3/4, 10/4, 17/4, 24/4/2023.

Ceisiadau Cynllunio - Dim Ceisiadau

12 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Dim Ceisiadau

Monitro'r Gyllideb: Dim Gorwariant

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc:	£282.35
Ffôn:	£ 15.00
Cyfrifiadur:	£ 20.00
HMRC:	£ 70.40
HSBC:	£ 8.00
Veolia	£ 62.28
Neuadd Garndolbenmaen	£300.00

Ychwanegwyd

Zurich

£1,223.24

Derbyniadau

Praesept - Cyngor Gwynedd = £9,000

Balansau Cyfrifon Banc:

Cyfredol: £22,401.79

Cadw: £16,909.40

13 Dewis gohebiaeth i'r wasg/wefan

- Bin Baw Ci, Cwmystradllyn
- Cyfarfod Blynyddol
- Bwrdd Gwybodaeth
- Bwlch y Moch
- Arwydd Lon Fudr
- Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd

